

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB – HOLIADUR

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB – HOLIADUR

Cyfadrn: Addysg

Gwasanaeth: Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Swyddog sy'n gyfrifol: Julie Hadley

Dyddiad: 15 Hydref 2018

1. Enw'r polisi/gweithdrefn/arfer/cynllun: **Ad-drefnu Darpariaeth Ysgol yn ardaloedd Pontypridd a'r Ddraenen Wen**

Bwriad y prosiect yw:

- Datblygu canolfannau rhagoriaeth ôl-16 yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw.
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd, ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen, a fydd yn arddel dull gwahanol iawn o addysgu yn yr ardaloedd dan sylw, gan rannu adnoddau'r sectorau cynradd ac uwchradd;
- Cau a chynyddu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg drwy gau Ysgol Gynradd Heol-y-celyn (sy'n ysgol dwy iaith) ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton. Bydd disgyblion y ffrwd cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu'r ddwy ysgol yma ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, a fydd yn cael ei hadeiladu ar safle hen Ysgol Heol-y-celyn;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;
- Gwella amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn, bydd y Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn buddsoddi £37.4 miliwn i godi adeiladau newydd neu ailfodelu adeiladau presennol i sicrhau bod gan ddisgyblion amgylchedd dysgu hyfyw, cynaliadwy ac o safon uchel sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni'n cynnig:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd.
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd.
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn a chreu ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sy wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol-y-celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd (bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol-y-celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen, gweler uchod);
- Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol trwy:
 - Trosglwyddo ardal Graig Pontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maesycod) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen)
 - Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen)
 - Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog).

Er mwyn cyflawni'r newidiadau yma, mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn bwriadu buddsoddi £37.4m mewn adeiladau a chyfleusterau newydd neu ailwampio / ail-fodelu adeiladau a chyfleusterau presennol.

2. Amcanion y Polisi, rhaid ystyried pam mae angen y polisi? Beth mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni?
Sut bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y bwriad?

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Estyn wedi mireinio ei ddull o arolygu ysgolion ac awdurdodau lleol ac mae'r targed yn uwch mewn perthynas â'r hyn y mae'n ystyried i fod yn ddarpariaeth dda a rhagorol. At hynny, mae Estyn wedi cymryd safbwynt llym iawn ar awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â gwendidau mewn meysydd allweddol fel llywodraethu corfforaethol, safonau addysgol, lefelau presenoldeb, lleoedd gwag a diogelu.

Hefyd, yn ystod arolwg ffurfiol diwethaf Rhondda Cynon Taf yn 2012, tynnodd Estyn sylw at y ffaith bod gan y Cyngor y nifer uchaf o leoedd gwag yng Nghymru a bod rhaid cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater yma. Cafodd hyn ei ddilyn gan lythyr oddi wrth Weinidog Llywodraeth Cymru dros Addysg a Sgiliau ym mis Mehefin 2012, a gyfarwyddodd y Cyngor i gymryd camau o ran lleoedd gwag. Nododd y llythyr y byddai Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb dros gael gwared ar leoedd gwag pe na bai'r Cyngor yn cymryd y camau hynny.

Derbyniodd yr Aelodau Etholedig argymhellion Estyn ac maen nhw wedi bod yn adolygu darpariaeth ysgol yn Rhondda Cynon Taf yn barhaus ers hynny. Mae'r meini prawf rydyn ni wedi'u defnyddio ar gyfer dewis ysgolion i'w hadolygu yn un neu ragor o'r canlynol:

- Lleoedd gwag dros 25% o'r capasiti cyhoeddedig;
- Adeiladau sydd y tu hwnt i atgyweirio economaidd/ddim yn addas at y diben;
- Anhyfyw yn ariannol (fel arfer oherwydd gostyngiad sydyn yn nifer y ddisgyblion);
- Ysgolion sy'n cael eu hystyried i fod yn ysgolion bach, h.y. ysgolion gyda 90 neu lai o ddisgyblion;
- Ysgolion i fabanod a phlant iau ar wahân, sy'n agos at ei gilydd;
- Ysgolion 'mewn parau', h.y. lle mae plant yn symud ymlaen o un ysgol i'r llall;
- Dosbarthiadau oed cymysg lle mae dros ddau grŵp oedran mewn un dosbarth;
- Ysgolion sy'n cael eu hystyried i fod mewn perygl o fodloni meini prawf Estyn ar gyfer ysgol sydd angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig, yn seiliedig ar eu data Cyfnod Allweddol academaidd ac ansawdd yr arweinyddiaeth.

Mae'r 3 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd sy wedi'u cynnwys yn y cynigion yma wedi'u hasesu yn erbyn y meini prawf uchod:

- Mae gan 4 o'r 5 ysgol leoedd gwag dros 25% o'r capasiti cyhoeddedig;
- Mae'r ôl-groniad o gyfuno costau cynnal a chadw'r 5 ysgol yw £4,352,000 sy'n cyfateb i £1,804 y disgybl;
- Mae cyflawniad addysgol a phresenoldeb y disgyblion yn y 2 ysgol CA4 a gynhelir wedi bod yn y trydydd a'r pedwerydd chwarterel yn gyson o'u cymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru.

Yn ogystal, mae gan Ysgolion Uwchradd y Ddraenen Wen a Phontypridd, hyd yn oed o'u cyfuno, chweched dosbarth bach o lai na 250 o ddisgyblion (y nifer lleiaf sy wedi'i argymhell yn genedlaethol ar gyfer chweched dosbarth effeithlon ac effeithiol), ac mae'r cyflawniad addysgol yno'n gymharol wael. Cyfeiriwch at y data sy wedi'i gynnwys yn adrannau 2 a 3 y ddogfen yma am y dystiolaeth i gefnogi'r datganiad yma.

Mae niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain hefyd wedi gostwng yn ddramatig yn ystod y tair blynedd diwethaf; ym Medi 2015 roedd 195 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth, ond roedd hyn wedi gostwng i ddim ond 80 ym mis Ionawr 2018, sef gostyngiad o 60%. Mae niferoedd ôl-16 mor fach yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth ôl-16 sydd ar gael ac ar brofiad ehangach myfyrwyr y chweched dosbarth. Rydyn ni'n rhagweld y bydd niferoedd yn gostwng ymhellach ym mis Medi 2018. Mae'r gostyngiad yma yn niferoedd y disgyblion a'r gostyngiad dilynol mewn cyllid ôl-16 gan Lywodraeth Cymru wedi golygu ein bod yn rhagweld y bydd cyllideb Ysgol Cardinal Newman yn dod i ddiffyg o dros £700,000.

Mae cyfle'n bodoli i ail-strwythuro'r ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 i greu ysgolion sy'n hyfyw yn addysgol ac yn ariannol i wasanaethu'r cymunedau lleol. Mae'r cynigion yn ceisio cyflawni hyn.

Ystyriaethau addysgol –

Dylai newid sefydliadol i ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y bydd unrhyw newid yn eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwelliannau cyffredinol mewn safonau, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a fyddai fel arfer yn cael effaith ffafriol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Trwy sefydlu darpariaethau chweched dosbarth fwy ac ysgolion 3-16 oed, mae'r Cyngor o'r farn y bydd yn:

- **Gwella deilliannau addysgol;**
 - Sefydlu adrannau neu gyfadrannau mwy a fydd yn hyrwyddo rhannu medrau ac arbenigedd ar draws carfanau mwy hyfyw;
 - Darparu rhagor o gyfleoedd i athrawon a staff ategol/cymorth ddatblygu'n broffesiynol;
 - Rhagor o gyfleoedd i staff symud rhwng cyfnodau allweddol a datblygu arbenigedd ymhellach;
 - Darparu cwricwlwm mwy priodol wedi'i seilio ar sgiliau a chyfleoedd allgyrsiol ehangach a fydd yn gwella presenoldeb disgyblion a deilliannau addysgol;

- Lleihau'r pryder sy'n cael ei achosi yn ystod y cyfnod pontio rhwng ysgol gynradd ac uwchradd.

- **Gwella darpariaeth addysgol;**

- Darparu'r amodau a fydd yn esgor ar gwricwlwm mwy eang ac amryfal er mwyn diwallu anghenion pobl ifainc yr ysgol, a hynny mewn modd a fydd yn ddichonol ac yn gynaliadwy dros y tymor hir;
- Gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau ac adnoddau dysgu sydd ar gael er budd y disgyblion i gyd;
- Gwella cysondeb mewn cefnogaeth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed;
- Caniatáu arbedion ariannol posibl o ran strwythurau staffio a phrynu gwasanaethau sy'n deillio o fod yn ysgol fwy;
- Ehangu ystod y gweithgareddau allgyrsiol a thu allan i'r ysgol a'u datblygu mewn modd sy'n eu gwneud nhw'n gynaliadwy dros y tymor hir;
- Cyflawni manteision o ran buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol a fyddai'n dod yn sgil gwella ambell i sefydliad yn hytrach na llawer ohonyn nhw.
- Creu ysgolion o faint cynaliadwy ar gyfer eu dalgylchoedd trwy gael gwared â lleoedd gwag, a rhoi rhagor rhagor o sefydlogrwydd addysgol ac ariannol;
- Rhyddhau adnoddau a fydd yn cael eu hail-fuddsoddi i wella adeiladau ac i wella safonau dysgu ac addysgu, na fydden nhw wedi bod ar gael fel arall;
- Galluogi ysgolion i feithrin perthynas well â rhieni a chynhalwyr.

- **Gwella materion arweinyddiaeth a rheoli;**

- Rhoi'r cyfle i Bennaeth yr Ysgol ddsbarthu gorchwylion arwain allweddol fel materion diogelu plant, llythrennedd, rhifedd, anghenion addysgol arbennig ac ati ymhlith rhagor o staff. Yn aml iawn mewn ysgol Gynradd fach, y Pennaeth sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o'r rhain;
- Darparu cyfleoedd arwain ar gyfer aelodau eraill o'r staff, a'r cyfle i eraill i arbenigo mewn meysydd allweddol, a fydd yn gwella darpariaeth a deilliannau addysgol ac yn gwella cynllunio olyniaeth;
- Rhoi modd i athrawon a staff atodol/cymorth i gael ystod ehangach o gyfrifoldebau;
 - Gwella disgwyliadau/rhagolygon ynghylch gyrfaoedd;
 - Gwell cyd-drefnu o ran y cwricwlwm;

- Y cyfle i addysgu ar draws ystod oedran ehangach;
- Rhagor o amrywiaeth mewn arbenigedd;
- Gwella cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio / cydlynu ymhlith y staff .

Mae'r buddion yma yr un mor berthnasol i ddisgyblion prif ffrwd yr ysgolion a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y ddadl yma ei chefnogi gan Estyn yn ei adroddiad "Maint Ysgol ac Effeithiolrwydd Addysgol" (Rhag 2013), a nododd:

- *"Mae safonau'r disgyblion yn dda neu'n well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ysgolion cynradd bach a chanolig. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd bod ysgolion mawr yn tueddu i gael rhagor o arbenigedd a'r capasiti i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n fwy agored i niwed a'r disgyblion mwy galluog a thalentog";*
- *"Mae canlyniadau arholiadau ar gyfer ysgolion uwchradd mawr yn well na'r rhai ar gyfer ysgolion uwchradd bach a chanolig ar gyfer bron pob mesur";*
- *"Yn gyffredinol, mae darpariaeth y cwricwlwm yn fwy eang a chytbwys mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd mawr yn darparu profiadau dysgu da neu well ar gyfer eu disgyblion. Mae modd i ysgolion uwchradd mawr gynnig ystod ehangach o opsiynau oherwydd arbedion maint".*

Beth yw'r sail addysgol ar gyfer ffurfio canolfannau chweched dosbarth mwy?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion uwchradd wedi ceisio cydweithio i fodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau 2009 ac i gynnig profiad dysgu ôl-16 o ansawdd da i'w disgyblion. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r penaethiaid, ysgolion a'r Cyngor:

- Mae gormod o ganolfannau chweched dosbarth bach a byddai rhesymoli'n diwallu anghenion addysgol y myfyrwyr yn well trwy gryfhau'r trefniadau rheoli, gwella'r defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, a sicrhau'n well brofiad addysgol o ansawdd uchel. Yn ddelfrydol, dylai fod gan chweched dosbarth sy'n hyfyw yn addysgol ac yn ariannol o leiaf 250 o fyfyrwyr. Ym mis Ionawr 2018 (ffynhonnell: Dychweliad Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion), roedd gan Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen 114 o fyfyrwyr chweched dosbarth ac roedd gan Ysgol Uwchradd Pontypridd 131 o fyfyrwyr chweched dosbarth. Mae hyn yn golygu cyfanswm o ddim ond 245 rhwng y ddwy ysgol. Roedd gan Ysgol Gyfun Bryncelynnog 147 o fyfyrwyr chweched dosbarth ar yr un adeg. Mae'r nifer yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain wedi gostwng o 195 yn 2015 i 80 yn unig ym mis Ionawr 2018, gostyngiad o bron i 60%.

- Mae darpariaeth addysg ôl-16 yn aneffeithlon a byddai modd i'r profiad addysgol fod yn sylweddol well i lawer. Mae dyblygu darpariaeth ôl-16 yn ddiangen rhwng ysgolion a cholegau yn parhau, mae'r dewis ar gyfer llawer o ddysgwyr wedi'i gyfyngu, mae maint dosbarthiadau yn rhy fach, ac rydyn ni'n rhagamcanu y bydd lleoedd ysgol uwchradd gwag ar draws y Fwrdeistref Sirol yn cyrraedd bron i 3,500 erbyn 2022 gyda dros 775 yn ardal Pontypridd yn unig. Mae hyn yn arwain at gronfeydd addysg gwerthfawr yn cael eu defnyddio ar gyfer costau staff a seilwaith ychwanegol pan fyddai'n well eu defnyddio ar gyfer dysgwyr a phrofiad y dysgwr. Ar hyn o bryd, ar draws Rhondda Cynon Taf, mae cyllid sy'n cyfateb i dros £600 y disgybl a gafodd ei ddarparu'n wreiddiol i addysgu disgyblion 11-16 oed yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth, i roi cymhorthdal i gyrsiau sy'n gwneud colledion oherwydd dosbarthiadau bach. Mae'r swm yma yn cynyddu i gyfartaledd o dros £600 y disgybl ar draws Ysgolion Uwchradd y Ddraenen Wen a Phontypridd; yn Ysgol Cardinal Newman mae'r ffigwr yma bron i £800.
- Mae'r dosbarthiadau bach sydd i'w cael mewn llawer o ganolfannau chweched dosbarth yn arwain at gyfyngu ar ryngweithio rhwng myfyrwyr, sy'n lleihau effeithiolrwydd y dysgu. Ar draws y pedair ysgol uwchradd, cafodd 44 o gyrsiau ôl-16 eu cyflwyno yn 2017 gyda llai na 5 disgybl ar bob cwrs ar gyfartaledd. Mae'r profiad dysgu gwael yma i fyfyrwyr yn effeithio ar nifer y myfyrwyr sy'n parhau â'u haddysg ôl-16 yn y pedair ysgol. Roedd canran y myfyrwyr a ddewisodd aros yn eu hysgol ar gyfer addysg chweched dosbarth ym Medi 2017 yn isel iawn, sef 31% yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman, 36% yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, 46% yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a 51% yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Lle mae darparwyr wedi gwneud y cynnydd mwyaf wrth gydweithio i leihau aneffeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd, mae cyfleoedd i ddysgwyr a rhyngweithio rhwng myfyrwyr yn cynyddu. Serch hynny, mae rhai myfyrwyr yn gweld teithio rhwng darparwyr fel rhwystr i gael mynediad at ddewis ehangach o gyrsiau.
- Mae dewis yn aml yn dibynnu ar god post y dysgwr. Nid oes hawl gyfartal i opsiynau ôl-16 ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.
- Mae'r cyflawniad a'r llwyddiant addysgol yng Nghyfnod Allweddol 4 (mewn perthynas â'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Eang wedi'i Gapio) a Chyfnod Allweddol 5 (mewn perthynas â'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Eang) yn y Fwrdeistref Sirol yn is na chyfartaleddau Cymru ac maen nhw ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae angen newid sylweddol er mwyn codi nifer y bobl ifainc sy'n cymryd rhan mewn addysg ôl-16 a gwella ansawdd y deilliannau dysgu trwy wella cyrhaeddiad a dilyniant, a chadw rhagor o ddisgyblion.

Mae creu chweched dosbarth mwy ym Mryncelynnog, ynghyd â'r ddarpariaeth ôl-16 cynhwysfawr bresennol yng Ngholeg y Cymoedd yn creu capasiti a darbodion maint fel bo modd gwella:

- **Safonau a Chyflawniad** – codi safonau llwyddiant a chyflawniad a chynyddu'r dilyniant i Addysg Uwch a chyflogaeth.
- **Dewis** – gwella ehangder y cwricwlwm gan greu rhagor o gyfleoedd i bob person ifanc ddewis llwybrau dysgu sy'n eu galluogi i ddewis ystod o gymwysterau a phrofiadau academiaidd a galwedigaethol.
- **Cyfranogiad** – cynyddu cyfranogiad a chyfraddau presenoldeb
- **Cydraddoldeb** – sicrhau bod modd i holl fyfyrwyr chweched dosbarth ardal Pontypridd gael mynediad i'r cwricwlwm o'u dewis.
- **Y gallu i ymateb i anghenion dysgwyr, cymunedau a busnes yn y dyfodol** – Ail-sgilio a gwella sgiliau poblogaeth Rhondda Cynon Taf wrth i'r amgylchedd masnachol newid, er mwyn galluogi pobl i gystadlu'n effeithiol yn y farchnad swyddi.
- **Hyfywedd ac effeithiolrwydd ariannol** – darparu model cost-effeithiol ac effeithlon ar gyfer cyflawni gwasanaeth, dileu dyblygu dianghenraid, sicrhau bod capasiti yn bodloni'r galw (yng ngoleuni newid demograffig), gan greu arbedion maint ac ehangu arbedion cwmpas. Bydd hyn yn arwain at gael gwared ar leoedd dros ben, gostyngiad yn nifer y dosbarthiadau chweched dosbarth bach, a lleihau dyblygu darpariaeth rhwng darparwyr.

Beth yw'r sail addysgol ar gyfer creu ysgolion 3-16 oed?

Un o gryfderau'r addysg 3-16 oed yw parhad y profiad addysgol sy'n lleihau effaith y cyfnod pontio ar gyflawniad disgyblion. Mae ysgol 3-16 oed yn rhoi'r cyfle i ddarparu "pont" rhwng y cyfnodau allweddol er mwyn creu profiad pontio di-dor ar gyfer disgyblion o ran cynllunio cwricwlaidd, dysgu ac addysgu. Mae modd iddo ganiatáu rhannu arbenigedd pwnc ac addysgeg gynradd yn sylweddol yn arbennig ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3.

Yn 2012, sefydlodd y Cyngor ysgol 3-19 oed newydd yn Ysgol Llanhari a hyd yn hyn mae'r ysgol yn gwneud cynnydd ardderchog, gyda chyrhaeddiad disgyblion a deilliannau datblygu yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r dysgu traws-gyfnod a chyfathrebu â staff yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion.

Mae ysgol 3-16/3-19 oed yn lleihau effaith y broses bontio rhwng y cyfnodau allweddol ac mae'r staff a'r athrawon yn adnabod y plant yn dda wrth iddyn nhw symud drwy'r grwpiau blwyddyn ac mae hyn yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion lle mae angen cymorth ychwanegol.

Mae gan yr Ysgol arweinyddiaeth gref, sy'n creu gweledigaeth sy'n berthnasol i bob cyfnod, mae'r holl staff yn ymgysylltu'n llawn ac mae'r ysgol yn elwa o 'gydlynad a pharhad' sy'n cynorthwyo dilyniant dysgu disgyblion.

Budd pwysig arall i addysg 3-16/3-19 oed yw bod modd cyflawni gwell effeithiolrwydd trwy rannu adnoddau, a'r cyfle i dargedu'r adnoddau yma, boed hynny'n ariannol, yn gorfforol neu'n ddynol, i feysydd allweddol i wella ysgolion. Mae'r manteision sy wedi'u hadrodd yn cynnwys:

- Darparu addysgu arbenigol yn CA2 neu ymestyn rhaglenni llythrennedd a rhifedd yn CA3;
- Mynediad i ddisgyblion ysgol gynradd i gyfleusterau'r ysgol uwchradd;
- Darparu cyfle i gynnal rhaglenni cyflymu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog;
- Datblygiad proffesiynol ar y cyd;
- Neilltuo adnoddau ar gyfer ymyrraeth gynnar;
- Cynllunio cwricwlwm ar y cyd;
- Rhannu offer, caledwedd a llety;
- Cynyddu'r ystod a'r gallu ar gyfer dysgu allgyrsiol / ôl-ysgol;
- Creu penodiadau gweinyddol cyffredin.

Beth fydd yr effaith ar yr ysgolion cynradd "partner" eraill yn y gymuned?

Bydd ysgolion cynradd cysylltiedig/partner eraill ym mhob cymuned hefyd yn elwa o'r cynnig. Mae pontio disgyblion yn bwysig ac mae'r Cyngor, trwy ei Rhaglen Band A Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif wedi rhoi bod i rai rhaglenni arloesol i sicrhau bod ansawdd yr integreiddio ym Mlwyddyn 7 yn ddi-dor, waeth pa ysgol gynradd mae'r disgyblion wedi'i mynychu. Ni fydd unrhyw ddisgybl dan anfantais pan fyddan nhw'n ymuno â'r ysgol newydd ym Mlwyddyn 7.

Beth fydd effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion yr ysgolion?

Wrth wneud y newidiadau arfaethedig, bydd llawer o bethau'n wahanol i'r disgyblion o ardal Pontypridd, gan ddibynnu ar rieni yn ymarfer eu hawl i ddewis, ond bydd rhai pethau'n aros yr un fath:

- Efallai bydd gan rai lwybr hirach neu wahanol i'r ysgol, ac mae'n bosibl y bydd rhai yn cael eu cludo i'r ysgol ar fws. Efallai y bydd rhai plant yn colli eu hawl i gludiant am ddim, ond mae'n bosibl y bydd eraill yn ennill yr hawl honno;

- Gan y byddan nhw mewn dosbarthiadau gyda'u grŵp oedran yn bennaf, bydd modd i'r athro gynnig cwricwlwm ehangach a mwy amrywiol i'r disgyblion cynradd i gefnogi pob dysgwr, gan gynnwys y rhai lleiaf galluog a'r rhai mwyaf galluog;
- Efallai bydd yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu yn wahanol, fodd bynnag, dylai fod modd i'r mwyafrif o'r athrawon a'r cynorthwywyr dysgu drosglwyddo rhwng yr ysgolion, os ydyn nhw am wneud hynny;
- Ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth bydd llai o deithio yn ystod y diwrnod ysgol i gael mynediad i'r cwricwlwm (yn ôl pob tebyg, bydd dim teithio). Bydd rhagor o gyfleoedd, felly, i gael rhagor o ryngweithio anffurfiol/heb ei strwythuro rhwng myfyrwyr ac athrawon yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd modd defnyddio'r amser sy'n cael ei arbed trwy beidio â theithio hefyd i ganolbwyntio ar astudio neu gwblhau gwaith cwrs;
- Bydd rhagor o gystadleuaeth y tu mewn a'r tu allan i'r dosbarth i ddisgyblion mewn ysgol fwy – a dyma'r hyn sydd ei angen ar blant os ydyn nhw i gyflawni deilliannau addysgol da;
- Mae bod yn rhan o ysgol fwy yn creu cyfle i redeg timau chwaraeon ysgol, tîm trafod ac ati. Bydd plant sy'n mynd i ddosbarthiadau anghenion dysgu ychwanegol hefyd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Y prif newid fydd gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol, a dylai hyn gael effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol y disgyblion. Bydd hyn yn ysgogi gwelliannau ar gyfer **pob** disgybl beth bynnag fo'i ryw, ethnigrwydd neu anabled. Dylen nodi, allan o tua 5,500 o ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion yn yr ardal dan sylw (Pontypridd a'r Ddraenen Wen), does dim un ohonyn nhw wedi'u cofnodi fel Sipsiwn neu blant i Deithwyr. Rhaid pwysleisio, dydy'r cynigion ddim i'w gweld fel eu bod nhw'n niweidiol i un garfan benodol o ddisgyblion. Bwriad y cynigion yw gwella darpariaeth addysg i bawb.

Bydd modd i ddisgyblion sy'n mynychu Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Cardinal Newman ar hyn o bryd barhau â'u haddysg ôl-16 trwy'r ffydd Gatholig, os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny, yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd. Bydd unrhyw ddisgyblion sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf sy'n dewis y Coleg yma ar sail ffydd yn derbyn cludiant am ddim i'r sefydliad yma. Bydd angen i ddisgyblion sy'n byw y tu allan i RCT wirio eu hawl gyda'u hawdurdod lleol cartref.

Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i "bellter cerdded" o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ysgol yn y dalgylch, boed hynny'n ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio "pellter cerdded" yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 er mwyn cynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion fel a ganlyn:

- Mae'r maen prawf i'w gymhwyso ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion ysgolion cynradd i'w hysgol addas agosaf wedi'i bennu'n 1½ milltir, o'i gymharu â'r 2 filltir sy'n ofynnol dan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i blant sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 2 filltir, yn hytrach na 3 milltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed sy'n bodloni'r meini prawf 2 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Mae'r ddarpariaeth yma'n berthnasol i ddisgyblion amser llawn sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg agosaf i'w cartrefi sy'n darparu'r cwrs cymeradwy maen nhw am ei astudio.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion (fel sy wedi'i nodi uchod) yn unol â'u henwad crefyddol o ddewis.
- Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Bydd myfyrwyr Ysgolion Uwchradd Pontypridd a'r Ddraenen Wen sy'n mynd i'r canolfannau chweched dosbarth arfaethedig yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, yn cael cludiant am ddim, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymwys (pellter cerdded 2 filltir o gartref i'r ysgol / coleg), i'r sefydliad ôl-16 agosaf sy'n cynnig y dewis o gyrsiau y mae arnyn nhw eu hangen. Os byddan nhw'n dewis canolfan heblaw'r un sydd agosaf at eu cartref, mae gyda nhw'r hawl i fynychu'r ganolfan, wrth gwrs, ond fyddan nhw ddim yn derbyn unrhyw gymorth tuag at gost cludiant gan y Cyngor.

Bydd modd i ddisgyblion sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf sy'n mynychu Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, ddewis y ddarpariaeth chweched dosbarth fwyaf priodol sy'n cynnig y dewis o gyrsiau y mae arnyn nhw eu hangen neu os ydyn nhw'n dewis darpariaeth ôl-16 Gatholig bydd hyn ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd. Wrth wneud hynny, byddan nhw'n derbyn cludiant am ddim, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf pellter i'r ddarpariaeth agosaf sy'n bodloni eu dewisiadau pynciol. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili wirio'r mater yma gyda'u hawdurdod lleol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, erledigaeth a cham-fanteisio.
4. yn cael mynediad i weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Rydyn ni o'r farn bod y cynnig yma o fudd i'r plant yng nghymunedau Pontypridd a'r Ddraenen Wen yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u rhestru uchod.

Mae gan yr holl ysgolion Cynradd sydd dan sylw yn rhan o'r cynigion yma ddarpariaethau clwb brecwast. Caiff ei ystyried bod rhain nid yn unig o fudd i'r disgyblion, ond ei bod o gymorth mawr i rieni sy'n gweithio hefyd. Bydd y clybiau yma yn parhau os bydd yr ysgolion newydd 3-16 oed yn cael eu creu. Mae llawer o ysgolion hefyd yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth ar ôl ysgol sydd â'r un buddion â'r clybiau brecwast; y gobaith yw y bydd trosglwyddo disgyblion oedran cynradd i safleoedd ysgol sydd â chyfleusterau gwell yn caniatáu ehangu'r ddarpariaeth yma.

Manteision adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Pont Siôn Norton

Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'i menter i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sy'n cynnwys disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'n gwneud hyn i sicrhau bod y galw am lefydd yn cael ei fodloni a bod darpariaeth yn cael ei hehangu a'i gwella lle bo modd, i annog rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Adleoli Ysgol Gyfun Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol newydd bwrpasol, gyda lleoedd i ddisgyblion ychwanegol yw un o'r prosiectau sy'n cael eu cynllunio i gynorthwyo cyflawni'r nod yma.

Mae rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r ddogfen yma'n nodi sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu hyrwyddo addysgu'r Gymraeg a sut mae'n bwriadu cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi sut y bydd modd i'r Awdurdod Lleol gynorthwyo Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i gwaith o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae modd gweld Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg RhCT a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/CynllunStrategolyGymraegmewnAddysg20172020.pdf>.

Ymhlith y camau gweithredu a deilliannau y bydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw i helpu i gyflawni'r targedau wedi'u gosod yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, trwy gynyddu nifer y plant 7 oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, fydd:

- Adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd
- Ystyried troi ysgolion cynradd dwy iaith yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig

Rhan yma o'r cynnig yw cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol newydd sbon, a fydd yn cael ei hadeiladu yn unol â safonau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu i 360 o ddisgyblion heb gynnwys darpariaeth y dosbarth Meithrin. Bydd hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at waith y Fwrdeistref Sirol o gyflawni'r targedau yma.

Beth fydd effaith debygol y cynigion ar staff yr ysgolion?

Fel sy wedi'i grybwyll eisoes, bydd yr holl ysgolion yn ardal Pontypridd a'r Ddraenen Wen sy'n rhan o'r cynnig yma yn cau, a chaiff ysgol cyfrwng Cymraeg a dwy ysgol 3-16 oed newydd eu hagor. Bydd hefyd gan yr ysgolion gyrrff llywodraethu newydd. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai angen i'r ysgolion newydd arfaethedig benodi cyrrff llywodraethu dros dro am y cyfnod interim nes i'r ysgolion newydd agor. Bydd y cyrrff llywodraethu dros dro yma yn gyfrifol am sefydlu'r ysgolion, cytuno ar strwythur staffio newydd a gweithredu'r broses o benodi staff i'r holl swyddi.

Gyntaf, bydd raid i'r cyrrff llywodraethu dros dro benodi penaethiaid newydd, a fydd wedyn yn llunio a chynnig strwythurau arweinyddiaeth, rheolaeth a staffio'r ysgolion newydd. Bydd angen datblygu'r strwythur staffio ar gyfer ysgolion 3-16 oed yn y Ddraenen Wen a Phontypridd, gan ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys darparu cwricwlwm heb ddarpariaeth chweched dosbarth.

Mae'r Cyngor yn argymhell, os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn bod cyrff llywodraethu dros dro ysgolion newydd yn agor y broses recriwtio ar gyfer swyddi dysgu a rolau cysylltiedig i staff yr ysgolion presennol yn y lle cyntaf.

Fydd dim angen newidiadau i gorff llywodraethu Ysgol Gyfun y Cardinal Newman, ond bydd angen diwygio eu strwythur staffio oherwydd colli'r ddarpariaeth chweched dosbarth.

Mae gan y Cyngor bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol, fel sy wedi'i weld yn y newidiadau sefydliadol diweddar i ysgolion yng Nghwm Rhondda ac Aberdâr.

3. I bwy mae'n berthnasol? Nodwch trwy oleuo neu ddileu fel y bo'n briodol

Aelodau o'r cyhoedd Staff yr ysgol Arall Nodwch: plant 3-19 oed yng nghymunedau Pontypridd a'r Ddraenen Wen, a'u rhieni a'u cynhalwyr.

4. Nodwch a fydd hyn yn gynnig newydd, adolygiad neu ddarfyddiad arfaethedig: Y 3

5. Adnabod yr Effaith – Dewiswch a fydd y polisi/arfer yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar **bob un** o'r materion isod: Meddyliwch am y cwestiynau allweddol sy wedi'u cynnwys yng nghanllawiau'r rheolwr.

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
Oedran (ifanc a hen)	Bydd	Bydd		<p>Cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu gwell i bawb.</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod yr holl blant yn yr ysgolion addysg gynradd mwy yn teimlo'n ddiogel. • gwneud yr amgylcheddau dysgu yn gyfforddus ac yn ddeniadol i bob plentyn a pherson ifanc sy'n eu defnyddio. • bod modd i ddisgyblion cynradd gael mynediad at gyfleusterau arbenigol yn eu safle ysgol eu hunain, a bod modd i ddisgyblion uwchradd gael gafael ar brofiad gwaith a chynorthwyo â dysgu eu cymheiriaid iau. • mynediad at wasanaethau i wella bywydau plant a'u teuluoedd. • bydd cyfleusterau gwell yn galluogi'r disgyblion i gael mynediad at weithgareddau dysgu a diwylliannol y mae modd iddyn nhw eu helpu i ddatblygu perthnasau mewn cymunedau. • gwella pontio rhwng y sectorau Cynradd ac Uwchradd. • hyrwyddo dysgu mwy annibynnol ar gyfer disgyblion ôl-16 i'w paratoi'n well ar gyfer addysg uwch a chyflogaeth, a gostwng nifer y bobl ifainc sy ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. • Bydd chweched dosbarth mwy yn lleihau'r angen am drefniadau consortia a theithio rhwng safleoedd; bydd modd gwneud defnydd gwell o amser, trwy ei ddefnyddio i

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
				<p>ddysgu yn hytrach na theithio.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y cwricwlwm sy'n newid, cyfleoedd dysgu gydol oes a defnydd o TGCh yn rhoi'r cyfle i alluogi pob dysgwr i gyrraedd ei botensial. • Rhagor o ddewis o lwybrau dysgu yn ôl-16, rhagor o ddewisiadau pwnc a fydd yn gwella rhagolygon addysg uwch a chyflogaeth pob dysgwr • Pellteroedd teithio pellach i rai disgyblion ysgol gynradd a rhai disgyblion chweched dosbarth
Anabledd (cofiwch ystyried y mathau gwahanol o anableddau)	Bydd			Bydd adeiladau newydd a chyfleusterau ysgol wedi'u hailwampio yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth anabledd a byddan nhw'n hygyrch i bob defnyddiwr. Bydd adeiladau sy wedi'u hailwampio neu'u hailfodelu yn cynnwys addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio lle mae hynny'n bosibl.
Rhyw			Bydd	
Ailbennu Rhywedd			Bydd	
Hil			Bydd	

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
Crefydd neu Gredo		Bydd		Bydd yn rhaid i'r disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain deithio i Goleg Dewi Sant, Caerdydd, os ydyn nhw am dderbyn addysg ôl-16 trwy'r ffydd Gatholig. Er mwyn lliniaru'r effaith negyddol bosibl yma, bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf; bydd angen i ddisgyblion sy'n byw mewn Bwrdeistrefi Sirol eraill wirio eu hawl i gludiant am ddim gyda'u hawdurdod lleol cartref.
Tuedd Rywiol			Bydd	
Cymraeg	Bydd			Ysgol Gymraeg newydd, wedi'i hadeiladu yn ôl safonau Ysgolion yr 21 Ganrif, â lleoedd ychwanegol i roi rhagor o ddewis i rieni ynglŷn â pha gyfrwng iaith y mae modd iddyn nhw ei ddewis ar gyfer eu plant.
Cynhalwyr			Bydd	

TYSTIOLAETH

6. Pa dystiolaeth sy'n cefnogi'ch casgliadau? Nodwch isod

Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg i'r Cabinet - Hydref 2018.
Dogfen Ymgynghori â'r Cyhoedd ar y Cynnig

7. Ar gyfer meysydd lle mae effaith negyddol wedi cael ei hadnabod, oes modd lleihau'r effaith negyddol neu gael gwared arni? Nodwch isod a chynnwys y dystiolaeth rydych chi wedi'i defnyddio i lunio'ch casgliad.

Yr unig effaith negyddol roedd modd ei nodi yw y bydd rhaid i rai disgyblion Cynradd deithio pellteroedd hirach i'w hysgolion, ac yn yr un modd efallai y bydd gan ddisgyblion chweched dosbarth deithiau hirach i'r ddarpariaeth ôl-16 newydd. Yn achos y disgyblion Cynradd, mae'n annhebygol iawn y bydd gan unrhyw blentyn bellach na 1.5 milltir i deithio i'w ysgol newydd; dyma'r pellter y mae CBSRhCT ar hyn o bryd yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol, sy'n fwy hael na'r hyn sy wedi'i gynnig yn ôl deddfwriaeth, h.y. 2 filltir. Cyfrifoldeb llawn rhieni yw cludo eu plant i'r ysgol lle nad ydyn nhw'n gymwys ar gyfer cludiant am ddim. Mae rhaid iddyn nhw hefyd bennu a darparu goruchwyliaeth briodol ar gyfer plant a phenderfynu ar y dull cludiant i'w ddefnyddio. Bydd cludiant am ddim ar gael lle mae disgyblion yn bodloni'r meini prawf cymhwys.

Fydd dim rhaid i unrhyw ddisgybl chweched dosbarth ymgymryd ag unrhyw daith, boed trwy gludiant cyhoeddus neu breifat, a fydd yn cymryd dros 40 munud, sydd o fewn targed y Cyngor i sicrhau nad oes gan ddysgwyr oed uwchradd amseroedd teithio o dros 60 munud. Byddai hyn yn cynnwys y disgyblion hynny sy'n dymuno parhau â'u haddysg ôl-16 trwy'r ffydd Gatholig, yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd. Bydd asesiadau llawn yn cael eu cynnal o'r holl lwybrau cerdded sydd ar gael i sicrhau eu bod yn bodloni'r holl feini prawf a safonau diogelwch sy wedi'u pennu ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2014. Bydd gwelliannau priodol yn cael eu gwneud lle mae eu hangen.

CYFRANNU AC YMGYNGHORI

9. Pa waith cyfrannu ac ymgynghori sy wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r polisi yma (neu bolisiâu tebyg) a beth yw'r canlyniadau?

Dyma'r cyfarfodydd ymgynghori/achlysuron agored sydd i'w cynnal.

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Cyfadran	Amser/Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018, 3.30pm	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen
Ysgol Uwchradd Pontypridd	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018, 3.30pm	Ysgol Uwchradd Pontypridd
Ysgol Gynradd Heol-y-celyn	Cyfarfod ar gyfer	Dydd Mercher, 14 Tachwedd	Ysgol Gynradd Heol-y-celyn

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Cyfadran	Amser/Dyddiad	Lleoliad
	Llywodraethwyr a Staff	2018, 4pm	
Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2018, 4pm	Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen
Ysgol Gynradd Cilfynydd	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018, 4pm	Ysgol Gynradd Cilfynydd
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018, 4pm	Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018, 3.30pm	Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018, 3.30pm	Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain
Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018, 2pm	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen
Ysgol Uwchradd Pontypridd	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018, 2pm	Ysgol Uwchradd Pontypridd
Ysgol Gynradd Heol-y-celyn	Cyngor yr Ysgol	Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2018, 2.30pm	Ysgol Gynradd Heol-y-celyn
Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen	Cyngor yr Ysgol	Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2018, 2.30pm	Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen
Ysgol Gynradd Cilfynydd	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018, 2.30pm	Ysgol Gynradd Cilfynydd
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton	Cyngor yr Ysgol	Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018, 2.30pm	Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018,	Ysgol Gyfun Bryncelynnog

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Cyfadran	Amser/Dyddiad	Lleoliad
		2pm	
Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018, 2pm	Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain
Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	Sesiwn galw heibio ar gyfer rhieni ac aelodau'r cyhoedd	Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2019, 3-6pm	Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Sesiwn galw heibio ar gyfer rhieni ac aelodau'r cyhoedd	Dydd Mercher, 16 Ionawr 2019, 3-6pm	Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol-y-celyn (Adran Gymraeg) – y ddwy ysgol ac aelodau o'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni a'r cyhoedd	Dydd Iau, 17 Ionawr 2019, 4-6pm	Canolfan i Blant Rhydfelen (i'w gadarnhau)
Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd Heol-y-celyn – y tair ysgol ac aelodau o'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni a'r cyhoedd	Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019, 3-6pm	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen
Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd – y ddwy ysgol ac aelodau o'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni a'r cyhoedd	Dydd Iau, 24 Ionawr 2019, 3-6pm	Ysgol Uwchradd Pontypridd

Mae croeso i unigolion a phartïon sydd â diddordeb anfon eu sylwadau ysgrifenedig at:

Cyfarwyddwr Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Tŷ Trevithick
Abercynon, CF45 4UQ

E-bost cynllunioysgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk

MONITRO AC ADOLYGU

10. Pa drefniadau ydych chi wedi'u rhoi yn eu lle i adolygu effaith y polisi unwaith y bydd e'n cael ei weithredu?

Bydd carfan gwella ysgolion y Cyngor yn ymwneud yn llawn â chefnogi penaethiaid, staff a chyrrff llywodraethu pob ysgol sy'n cymryd rhan yn ystod y flwyddyn gyntaf, neu am ba hyd bynnag y bydd angen cymorth o'r fath arnyn nhw. Bydd yr Adran Adnoddau Dynol a'r gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr yn darparu cymorth wrth recriwtio staff ac ar gyfer y cyrrff llywodraethu dros dro, gan gynnwys gwasanaeth clerico.

YSTYRIED YR EFFAITH

11. Pa opsiwn ydych chi wedi'i ddewis o ganlyniad i'ch asesiad o'r effaith?

- Parhau â'r Polisi

Nodwch resymau ar gyfer eich penderfyniad.

Mae'r dystiolaeth wedi'i hamlinellu yn ein dogfen ymgynghori yn argymhell mai dyma'r ffordd addas o weithredu.

12. CYNLLUN GWEITHREDU

Bydd angen i chi gwblhau cynllun gweithredu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i amlinellu sut byddwch chi'n gweithredu ar unrhyw effaith sy wedi'i hadnabod. Mae'n bosibl y bydd angen blaenoriaethu o ran pa gamau gweithredu rydych chi'n eu dewis a'r amserlenni y byddwch chi'n eu dilyn wrth eu cwblhau. Yn gyffredinol, dylech chi weithredu ar bob effaith negyddol oni bai bod yna reswm pam nad yw hyn yn bosibl. Byddai modd i chi hefyd bennu camau gweithredu ar gyfer effaith gadarnhaol neu negyddol ble y bo'n addas e.e. amlinellu a hyrwyddo effaith gadarnhaol neu amlinellu sut i sicrhau effaith gadarnhaol yn lle effaith niwtral.

CYNLLUN GWEITHREDU – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen ar gyfer Camau Gweithredu	Amserlen a chatau gweithredu i'w hadolygu	Mesurau i'w cymryd i werthuso effeithiau gweithredu
Cwblhau'r cynlluniau ar gyfer codi adeiladau ysgol ac atgyweirio / adnewyddu adeiladau presennol	Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor	Erbyn Medi 2021		
Ymgymryd ag unrhyw waith priffyrdd sydd ei angen i wella llwybrau cerdded a gwneud trefniadau ar gyfer darparu unrhyw gludiant y mae'n bosibl y bydd ei angen.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Chludiant	Erbyn Medi 2021		

13. Nodwch isod unrhyw effaith negyddol sydd wedi cael ei hadnabod yn y holiadur ond heb ei nodi yn y cynllun gweithredu. Bydd angen i chi esbonio eich rhesymau am beidio â'i nodi.

Dim un ohonyn nhw

Cadwch gopi o'r holiadur a'r cynllun gweithredu ac anfon copïau i:

Carfan Materion Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
CF40 2XX

E-bost: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

Ffôn: 01443 424075

Llofnod: Esther Thomas
Teitl y swydd: Cyfarwyddwr Addysg

Dyddiad: 15/10/18